**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion **Pwyllgor Archwilio** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Mawrth 2026 yn rhithwir dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 09.30 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Gareth Sandilands (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Tina Claydon (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Ann Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Chrissy Gee (gadawodd am 10.22) | Cyngor Sir y Fflint |
| Ian Hodge | Cyngor Sir y Fflint |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gwynfor Owen (gadawodd am 10:14) | Cyngor Gwynedd |
| Beverley Parry-Jones (gadawodd am 10:24) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Elgan W Roberts | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Angharad Ellis | MIAA |
| Timothy Buckle | Archwilio Cymru |
| Heledd Davies | Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwyydd Gweithredol – cofnodydd |

**1.0 YMDDIHEURIADAU**

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |

**YN ABSENNOL**

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

## 2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

## 3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd unrhyw hysbysiadau o faterion brys.

## 4.0 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 RHAGFYR 2025

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2025 i'w cymeradwyo. Cynigiwyd eu bod yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion. Eiliwyd hyn a'i basio gyda phawb o blaid.

4.2 Nodwyd bod y gyllideb bellach wedi'i chymeradwyo gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) llawn a bod yr ardoll wedi'i chyfleu i awdurdodau lleol.

4.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

## 5.0 ARCHWILIAD O ASESIAD PERFFORMIAD AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU 2024/25

5.1 Cyflwynodd y PSTC Anthony Jones Archwiliad o Asesiad Perfformiad yr Awdurdod 2024/25 a gyflwynodd ganlyniad archwiliad allanol Asesiad Perfformiad yr Awdurdod 2024-25, fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

5.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi’r llythyr archwilio sy’n cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.**

## 6.0 ARCHWILIO CYMRU – CRYNODEB O ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2025

6.1 Croesawyd Timothy Buckle o Archwilio Cymru i'r cyfarfod a chyflwynodd Grynodeb o Archwiliad Blynyddol Archwilio Cymru 2025.

6.2 Nodwyd bod yr adroddiad hwn yn safonol ac nad oedd unrhyw ddatblygiadau newydd i'w hadrodd.

6.3 Cadarnhaodd y PSTC HM fod yr Archwilydd Cyffredinol wedi ysgrifennu i gadarnhau bod y cyfrifon wedi'u cyflwyno ar amser yn erbyn cefndir anodd i'r sector cyhoeddus, ac fel sefydliad, roedd gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod hyn yn parhau gyda pharatoadau ar gyfer yr archwiliad nesaf sydd ar y gweill.

6.4 Gofynnwyd a oedd Cynllun Archwilio Cymru newydd yn cael ei ddatblygu, a chadarnhaodd Timothy fod hwn yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol ac y byddai'r fersiwn nesaf yn cwmpasu cyfrifon 2025-26 ac archwiliad perfformiad 2026-27.

6.5 Cadarnhaodd y PSTC MacArthur fod mecanweithiau ar waith o fewn y Gwasanaeth i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion sy'n deillio o archwiliadau a gynhaliwyd.

6.6 Gofynnwyd a oedd yr holl amcanion llesiant wedi'u cwblhau, a chadarnhaodd y PSTC Jones fod y Gwasanaeth ar y trywydd iawn i gyflawni'r rhain a bod monitro wedi digwydd drwy'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CRMIP).

6.7 Nododd y Clerc fod gwelliant parhaus yn amlwg i'r Aelodau drwy'r gwaith a ddangoswyd gan swyddogion, er enghraifft nodi'r angen i wella cyfleusterau hyfforddi gan arwain at y cynigion ar gyfer datblygu Canolfan Hyfforddi newydd.

6.8 Gofynnodd y Trysorydd a oedd amserlen ar gyfer disodli Adrian Crompton fel Archwilydd Cyffredinol, a chadarnhaodd Timothy y byddai hyn yn debygol o gael ei gadarnhau ym mis Mehefin 2026.

6.9 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r Crynodeb o'r Archwiliad Blynyddol.**

## 6a ADRODDIAD CYNALIADWYEDD ARIANNOL ARCHWILIO CYMRU

6a.1 Darparodd Timothy Buckle grynodeb o Adroddiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru, a'r pwrpas oedd galluogi'r Pwyllgor Archwilio i adolygu'r canfyddiadau a rhoi sicrwydd ynghylch dull yr Awdurdod o gynllunio ariannol tymor canolig a hirdymor.

6a.2 Cadarnhaodd y PSTC MacArthur y byddai gwaith yn digwydd gydag Archwilio Cymru i fynd i'r afael â'r argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad hwn.

6a.3 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru;**
- **ii) Ystyried a chymeradwyo Ymateb Rheoli'r Awdurdod a'r cynllun gweithredu cysylltiedig; a**
- **iii) Cefnogi monitro cynnydd yn barhaus drwy raglen waith y Pwyllgor Archwilio.**

## 7.0 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL 2025-26

7.1 Croesawyd Angharad Ellis i'r cyfarfod, a chyflwynodd yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 2025-26. Nod yr adroddiad hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol yr Awdurdod, MIAA, ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, rhwng 1 Rhagfyr 2025 a 28 Chwefror 2026.

7.2 Gofynnwyd pa mor ddibynnol oedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ar feddalwedd Tech One, ac ymatebodd Elgan Roberts fod hon yn system ariannol allweddol a bod dyraniad penodol o oriau gan Tech One wedi'u darparu ar gyfer cynnal a chadw a hyfforddiant i randdeiliaid allweddol ar draws y Gwasanaeth. Roedd cynlluniau wrth gefn a phrosesau ar waith pe bai'r system yn methu ond hyd yn hyn roedd wedi profi ei bod yn ddarn dibynadwy o feddalwedd.

7.3 Gofynnwyd ymhellach sut roedd deallusrwydd artiffisial yn helpu'r Gwasanaeth mewn perthynas ag archwilio a chadarnhaodd Elgan Roberts fod swyddogaeth deallusrwydd artiffisial o fewn Tech One, ond nad oedd hon wedi'i mabwysiadu eto oherwydd goblygiadau cost. Roedd ymchwiliadau ar waith i edrych ar sut y gallai deallusrwydd artiffisial helpu ymhellach ar draws y Gwasanaeth.

7.4 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2025/26; a**
- **ii) Nodi'r gwaith a gwblhawyd yn derfynol rhwng Rhagfyr 2025 a Chwefror 2026.**

## 8.0 ADRODDIAD RHEOLI'R TRYSORLYS Ch3 2025/26

8.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards grynodeb o Adroddiad Rheoli'r Trysorlys ar Ch3 2025/26. Diben hyn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Awdurdod am weithgarwch rheoli'r trysorlys ac am gydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Medi 2025 – 31 Rhagfyr 2025. Amlygwyd data allweddol trwy gydol yr adroddiad.

8.2 Cadarnhawyd bod y Pennaeth Cyllid yn rheoli benthyca o ddydd i ddydd ac er bod cyfraddau llog wedi bod yn gostwng, rhagwelwyd y byddai'r sefyllfa fyd-eang bresennol yn effeithio ar y maes hwn gan arwain at gynnydd mewn cyfraddau benthyca tymor hir. Fodd bynnag, roedd hyn yn anodd ei ragweld.

8.3 Cadarnhaodd Elgan Roberts, o safbwynt llyfr benthyciadau, fod y Gwasanaeth mewn sefyllfa dda a bod pob benthyciad a sicrhawyd gan y Gwasanaeth ar gyfradd llog sefydlog am hyd y benthyciad.

8.4 Gofynnodd Aelod sut roedd yr Aelodau'n cael gwybod am fenthyciadau a sicrhawyd gan y Gwasanaeth. Cadarnhaodd y PSTC MacArthur fod yr Awdurdod yn cytuno ar y strategaethau ariannol bob blwyddyn a bod swyddogion yn gweithredu o fewn terfynau dirprwyedig y strategaethau hynny, gan adrodd yn ôl yn ôl drwy'r Pwyllgor Archwilio.

8.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r gweithgarwch rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Medi 2025 a 31 Rhagfyr 2025.**

## 9.0 STRATEGAETHAU A DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER 2026/27

9.1 Cyflwynodd Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid, y papur Strategaethau a Datganiadau Ariannol ar gyfer 2026/27 a gyflwynodd i'r Aelodau y strategaethau a'r datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2026/27: y Strategaeth Gyfalaf, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a'r Datganiad Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP). Mae'r dogfennau hyn yn gosod y fframwaith ar gyfer buddsoddi cyfalaf, benthyca ac ad-dalu dyled.

9.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf;**
**ii) Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys gan gynnwys dangosyddion darbodus, a**
**iii) Cymeradwyo Datganiad MRP Blynyddol 2026/27.**

## 10.0 STRATEGAETH ADNODDAU TYMOR CANOLIG 2026-30

10.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân MacArthur grynodeb o'r Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig 2026-30 a roddodd i'r Aelodau y fframwaith ariannol sy'n cefnogi cyflawni'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) 2024–2029 ac yn nodi rhagolygon ariannol tymor canolig yr Awdurdod, y risgiau a'r rhagdybiaethau cynllunio.

10.2 Gofynnwyd pa mor sicr oedd swyddogion y byddai'r gyllideb ar gyfer dyfarniadau cyflog yn ddigonol, a chadarnhaodd y PSTC MacArthur nad oedd yr un o'r dyfarniadau cyflog wedi'u cytuno eto ond y byddai unrhyw beth uwchlaw'r 4% a ragwelwyd yn cael ei dalu o gronfeydd wrth gefn cyffredinol pe na bai'n bosibl rheoli o fewn cyllidebau presennol yn y lle cyntaf.

10.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig 2026 - 2030**

## 11.0 CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2026/27

11.1 Cyflwynodd Angharad Ellis y Cynllun Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27 i'r Aelodau.

11.2 Nododd y PSTC MacArthur fod y cynllun yn cynnwys gwaith o amgylch y broses recriwtio a dyrchafiadau, maes allweddol o Adroddiad Diwylliant Crest. Roedd llawer o waith wedi digwydd o fewn y Gwasanaeth i wella'r maes hwn a chroesawyd craffu gan archwilio mewnol ynghylch hyn.

11.3 Ar ben hynny, cynhaliwyd gwaith partneriaeth lle bo modd ac unwaith eto, roedd craffu gan archwilio mewnol yn y maes hwn yn ychwanegiad i'w groesawu, ynghyd â llywodraethiant deallusrwydd artiffisial.

11.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo rhaglen waith arfaethedig 2026/27 ar gyfer archwilio.**

## 12.0 ASESIAD ANSAWDD ALLANOL

12.1 Cyflwynodd Angharad Ellis yr Asesiad Ansawdd Allanol Archwilio Mewnol, a'i bwrpas oedd rhoi ymwybyddiaeth i'r Aelodau o'r gofyniad i archwilwyr mewnol yr Awdurdod gydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) a'r trefniadau ar gyfer cael sicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth.

12.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi a chymeradwyo'r dull a ddefnyddiwyd gan MIAA i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang.**

## 13.0 MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:26